Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Tachwedd 12fed 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol Cyng Colin Jenkins, Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Dawn Wallace, Cyng Julia Jones, Cyng Fran Murphy Roger Phillips (Clerc y Dref) Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Cyng Richard Wallace,

Cof 175 / Tachwedd/ 08 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/20141 Rhif 2. Tŷ un talcen yn fflatiau 2 ystafell wely ar dir yng nghefn 56, Heol Newydd
Sylw : Dim gwrthwynebiad cyhyd â'u bod yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau adeiladu cyfredol

E/20127 Adeilad rhestredig. Tynnu'r simnai bresennol yn yr hen 'drawing room' a gosod enghraifft fodern o'r gwreiddiol a wyddir ei bod mewn lle tan c.1984 yn Nhŷ'r Drenewydd
Sylw : Dim gwrthwynebiad cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu cyfredol

E/20123 Dymchwel yr adeilad presennol a darparu cyfleusterau newid mewn adeilad modular priodol ym Mharc Le Conquet.
Sylw : Dim gwrthwynebiad cyhyd â'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau adeiladu cyfredol.

E/ 20199 Newid defnydd arfaethedig o dŷ tafarn i feddygfa ddeintyddol er mwyn darparu cyfleusterau i ail-leoli'r feddygfa ddeintyddol bresennol gan gynnwys ail-ddylunio'r arwydd yn y blaen yn adeilad presennol Tafarn y Farmers, Heol Rhosmaen.
Sylw : Dim gwrthwynebiad. Da gweld defnydd effeithiol o adeilad gwag.

.

Cof 176 / Tachwedd / 08 Doedd yna ddim Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Cof 177 / Tachwedd / 08 Ni Thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 178 / Tachwedd / 08 Doedd yna ddim Apeliadau Cynllunio

Cof 179 / Tachwedd / 08 Materion Cludiant a Phriffyrdd

Adroddodd y Clerc bod y pryderon mewn perthynas â chyflwr y gylchfan ar gyffordd yr A40 wedi'u rhoi i Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru am sylwadau.

Cof 180/ Tachwedd /08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Adroddodd y Swyddog Technegol bod llawr cyntedd Neuadd y Sir bellach wedi'i adnewyddu ac mae'r cerrig copa wedi'u gosod ar y pileri blaen. Bydd y gwaith cynnal a chadw ar y boiler yn cael ei wneud yr wythnos hon.
Roedd Mr Davies am i'r Cynghorwyr fod yn ymwybodol gan fydd y goleuadau Nadolig yn cael eu cynnau wythnos yn gynt eleni, a bydd y gost ychwanegol tua £105. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cadw hyn mewn cof ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Cof 181/ Tachwedd / 08 Neuadd y Sir
Dosbarthodd y Clerc enghreifftiau addas o arwyddion ar gyfer portsh blaen Neuadd y Sir. Mae'r gwaith dylunio a'r costau wedi'u rhoi gan Phil Wait o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Cynigiodd y Cyng Chris Parish y dylid argymell derbyn yr arwyddion a'u cyfeirio at y Pwyllgor Cyllid. Eiliwyd hyn gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid. Y Clerc i ysgrifennu at Mr Wait er mwyn dweud wrtho y dylai'r gwneuthurwr arwyddion fod yn ymwybodol bod calch yn gollwng o'r waliau.
Cynigiwyd y dylai'r Clerc gysylltu â Mr Ken Murphy, cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed er mwyn cadarnhau dyddiad ac amser i gynnal cyfarfod o'r is-grŵp er mwyn trafod cyfrifoldebau'r perchennog/daliwr les. Bydd y Clerc yn darparu tri chopi a fydd ar gael i aelodau.

Cof 182/ Tachwedd/ 08 Gohebiaeth

1. CSC Ymgynghoriad ar y Cynllun Sbwriel ar y Stryd. Bydd y Cyng Dawn Wallace yn ei ddarllen ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn.
2. Ysgol Gynradd Llandeilo – gwahoddiad i'r gwaith o blannu perllan newydd yr ysgol ar Dachwedd y 19eg. Nodwyd.
3. Seminar y Comisiwn Ffiniau i'w gynnal yng Ngholeg y Drindod ar y 10fed Rhagfyr. Nodwyd.
4. Heddlu Dyfed Powys. Cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn y Pencadlys ar y 19eg Tachwedd. Nodwyd.
5. Swyddog CSC Phil Grafton yn gwahodd Cynghorau sydd wrth ymyl i gwrdd er mwyn derbyn hyfforddiant ar y modd mae'r côd ymddygiad yn cael ei ddehongli. Y Clerc i wahodd Cynghorau Cymuned Manordeilo a Dyffryn Cennen i'r hyfforddiant.

Cof 183 / Tachwedd / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm.